Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan

DARPARIAETH HYFFORDDIANT I GADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU

Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Ffordd Townhill, ABERTAWE SA2 0UT
Ffôn: 01792 482065 **Ffacs: 01792 482076**
E-bost: steve.gullick@smu.ac.uk
www.smu.ac.uk/schoolgovernor

Mawrth 2007

CYNNWYS

Rhagarweiniad 2

Dadansoddiad o'r Ymatebion oddi wrth Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr

Darpariaeth hyfforddiant i Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu 4

Cymorth Cyfredol a Lledaenu Gwybodaeth 11

Mesur Perfformiad Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu 14

Sgiliau'r Cadeirydd 15

Dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd oddi wrth Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu

Darpariaeth Hyfforddiant i Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu a Sgiliau Cadeiryddion 17

Dadansoddiad o ymatebion Penaethiaid

Darpariaeth Hyfforddiant i Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu a Sgiliau Cadeiryddion 21

Crynodeb o Gasgliadau 26

Crynodeb o Argymhellion 27

Atodiadau 28

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon, a gynhaliwyd gan Ganolfan Hyfforddi Athrawon ac Ymchwil Cymru Gyfan, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i "hyfforddiant i Gadeiryddion (a ddarperir gan awdurdodau lleol) ar eu rôl a'u swyddogaethau a'u heffeithiolrwydd wrth lywodraethu cyrff.

1.2 Mae rôl y Cadeirydd yn hanfodol i waith y corff llywodraethu wrth godi safonau llwyddiant a chyrhaeddiad mewn ysgolion. Felly, mae hyfforddiant effeithiol i Gadeiryddion yn hanfodol os ydynt am gyflawni eu dyletswyddau'n dda. At hyn, mae cymorth parhaus i Gadeiryddion yr un mor bwysig, felly mae'r astudiaeth hon hefyd yn cynnwys cyngor ac arweiniad a ddarperir gan awdurdodau lleol; sut y mae awdurdodau lleol yn lledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion, a pha wybodaeth a ledaenir; a dulliau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i fesur perfformiad Cadeiryddion.

1.3 Seilir canfyddiadau'r astudiaeth hon ar wybodaeth o:

- Arolwg holiadur (Atodiad 1) a anfonwyd at Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol.

- Holiadur (Atodiad 2) a anfonwyd at 30 o Benaethiaid a 30 o Gadeiryddion cyrff llywodraethu.

1.4 Cafwyd ymatebion oddi wrth bob un o'r 22 o Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdod lleol, oddi wrth 23 o Gadeiryddion ac 16 o Benaethiaid.

1.5 Penderfynwyd cyhoeddi holiaduron i nifer gymharol fach o Gadeiryddion a Phenaethiaid i sicrhau rhywfaint o baredd o bob sampl.

1.6 Gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau bod barn trawstoriad o Gadeiryddion a Phenaethiaid yn cael eu cynrychioli.

1.7 O'r 23 o ymatebion a gafwyd gan Gadeiryddion:

- daeth 13 ymateb oddi wrth Gadeiryddion Ysgolion Cynradd
- daeth 10 ymateb oddi wrth Gadeiryddion Ysgolion Uwchradd
- Cafwyd ymatebion oddi wrth Gadeiryddion ysgolion ar draws 11 awdurdod gwahanol
- Cafwyd ymatebion oddi wrth Gadeiryddion ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Cafwyd ymatebion oddi wrth Gadeiryddion ysgolion gwirfoddol a reolir.

1.8 O'r 16 o ymatebion a gafwyd oddi wrth Penaethiaid:

- Cafwyd 7 ymateb oddi wrth Benaethiaid Cynradd
- Cafwyd 9 ymateb oddi wrth Benaethiaid Uwchradd
- Cafwyd ymatebion oddi wrth Penaethiaid ysgolion ar draws 10 awdurdod lleol yng Nghymru
- Cafwyd ymatebion oddi wrth Penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

2 DADANSODDIAD O'R YMATEBION ODDI WRTH SWYDDOGION CYMORTH I LYWODRAETHWYR

2.1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT I GADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU

2.1.1 O'r 22 o awdurdodau lleol ar draws Cymru, mae 16 yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion. O'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn darparu hyfforddiant, dywedodd un "ddim ar hyn o bryd ond rydym wedi gwneud yn y gorffennol. Bu hyn o ganlyniad i ddiffyg diddordeb".

2.1.2 Mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hysbysu Cadeiryddion cyrff llywodraethu am gynnwys, amser a lleoliad sesiynau hyfforddi. Dangosir y dulliau hyn yn Ffigwr 1.

Ffigwr 1. Dulliau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i hysbysu cadeiryddion am sesiynau hyfforddi.

Dull a ddefnyddir	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r dull yma
Llythyr i'r Cadeirydd	6
E-bost i'r Cadeirydd	5
Sesiwn(/Sesiynau) hyfforddi'n cael eu hysbysebu yn y rhaglen flynyddol hyfforddiant i lywodraethwyr	5
Sesiwn(/Sesiynau) hyfforddi'n cael eu hysbysebu yn y rhaglen dymhorol hyfforddiant i lywodraethwyr	4
Anfon taflen sy'n hysbysebu hyfforddiant i'r ysgol	4
Rhoi gwybod am yr hyfforddiant trwy glerc y corff llywodraethu	3
Post mewnol i'r ysgol	1
Hyfforddiant wedi'i hysbysebu ar wefan yr awdurdod lleol	1

2.1.3 Diddorol yw nodi, o'r wyth dull cyfathrebu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, bod y ddau fwyaf poblogaidd yn rhai 'personol', h.y. dim ond at Gadeiryddion y cyrff llywodraethu y cânt eu hanfon, a chaiff cadeiryddion eu, 'hysbysu am hyfforddiant gan glerc y corff llywodraethu'. Ymhlith y dulliau poblogaidd eraill y mae, hysbysebu hyfforddiant er sylw Cadeiryddion yn benodol gyda'r sesiynau hyfforddi llywodraethwyr cyffredinol yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni hyfforddi blynyddol a thymhorol. At hyn, diddorol yw nodi sut y defnyddir yr ysgol fel ffordd o hysbysu

Cadeiryddion am bwnc, lleoliad ac amser sesiynau hyfforddi. Yn olaf, mae gwerth nodi'r dulliau cyfathrebu electronig (e-bost a gwefan) a ddefnyddir i hysbysebu sesiynau hyfforddiant i Gadeiryddion.

2.1.4 Mae mwyafrif bach o awdurdodau lleol yn defnyddio mwy nag un dull i hysbysu Cadeiryddion am sesiynau hyfforddi, er nad yw'r un awdurdod lleol yn defnyddio mwy na thri dull. Gweler Ffigwr 2 dros y dudalen.

Ffigwr 2. Nifer y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i hysbysu Cadeiryddion am sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion

Nifer y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol	Awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r nifer yma o ddulliau
3 dull	5
2 ddull	5
1 dull	6
Dim ateb	6

2.1.5 Gofynnwyd i'r Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr hynny yr oedd eu hawdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion (cyfanswm o 16) ddewis y pynciau y maent yn eu cwmpasu mewn hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu o restr benodol o bynciau (gweler Atodiad 2). Hefyd, gofynnwyd iddynt ychwanegu unrhyw bynciau nad oeddynt ar y rhestr. Yn eu hymatebion, dim ond dau a nododd eu bod yn cwmpasu pynciau ychwanegol, ac fe enwodd y ddau agweddau ar gynllunio strategol.

2.1.6 Mae ffigwr 3 yn dangos poblogrwydd pynciau a gwmpaswyd gan awdurdodau lleol yn yr hyfforddiant maent yn ei gynnig i Gadeiryddion cyrff llywodraethu.

Ffigwr 3. Nifer yr awdurdodau lleol sy'n cwmpasu'r pynciau hyfforddi a restrir

Pwnc	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n cynnwys y pwnc hwn yn eu hyfforddiant i Gadeiryddion
Trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol	13
Gweithio gyda'r Pennaeth	12
Defnydd effeithlon o bwyllgorau	12
Gweithio gyda chlerc y llywodraethwyr	11
Cyfreithiau Addysg	11
Sgiliau arweinyddiaeth, e.e. adeiladu tîm, cymhelliant	11
Ymsefydlu Llywodraethwyr	6
Diogelu Disgyblion	5
Gweithio gyda rhieni	5
Gweithio gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y cyfryngau	4
Rhoi llais i ddisgyblion, e.e. cynghorau ysgol	3

2.1.7 Mae'r cyfansymiau yn ffigwr 3 yn dangos, o'r chwe phwnc mwyaf poblogaidd (y rheiny a gwmpesir gan 11 neu fwy o awdurdodau lleol), mae dau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cadeirydd sy'n gysylltiedig â systemau h.y. trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol a'r defnydd effeithlon o bwyllgorau, ac mae tri'n ffocysu ar sgiliau rhyngbersonol, h.y. gweithio gyda'r Pennaeth, gweithio gyda chlerc y llywodraethwyr, a sgiliau arweinyddiaeth. Mae'r pynciau hyfforddi hyn yn cefnogi un o brif rolau cyrff llywodraethu, sef cyfeiriad a throsolwg strategol yr ysgol. Hefyd, byddai hyn yn helpu i esbonio pam mai nifer gymharol fach o awdurdodau lleol sy'n hyfforddi Cadeiryddion ar gyfer yr hyn y gellid eu hystyried yn sgiliau mwy rheolaethol, er bod y rhain hefyd yn cael eu hystyried yn sgiliau allweddol i sicrhau llwyddiant cadeirydd.

2.1.8 Mae chwech o'r pymtheg yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion i'w galluogi i ymsefydlu llywodraethwyr newydd. Mae hyn yn dipyn o syndod gan ystyried pwysigrwydd "dechrau da" i aelodau newydd cyrff llywodraethu ysgolion, fel y nodwyd gan Nigel Gann: “Bydd y ffordd rydym yn dechrau bod yn llywodraethwr yn gosod y safon i lawer ohonom am amser hir, efallai ein cyfnod cyfan yn y swydd.” (Cadwyn, Rhifyn 11, Yr Haf 2005)

2.1.9 Mae yna amrywiaeth mawr yn nifer y pynciau a gwmpesir gan awdurdodau lleol o ran yr hyfforddiant y maent yn ei ddarparu i Gadeiryddion. Gweler ffigwr 4.

Ffigwr 4. Nifer y pynciau a gwmpesir gan awdurdodau lleol mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion

Nifer y pynciau a gwmpesir mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion	Nifer yr awdurdodau lleol
11	1
10	2
9	1
8	1
7	1
6	4
5	3
4	-
3	1
2	1
1	1

2.1.10 Hefyd, mae yna amrywiaeth yn rheoleidd-dra'r ddarpariaeth hyfforddiant i Gadeiryddion yn benodol, ar draws awdurdodau lleol Cymru. (Gweler ffigwr 5.)

2.1.11 Mae dau awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion dwywaith y flwyddyn a hefyd pan fyddant yn teimlo bod angen. Fodd bynnag, tynnodd nifer o awdurdodau lleol sylw at y ffaith eu bod hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Addysg /Cyfarwyddwr Addysg a Chadeiryddion cyrff llywodraethu sydd, er eu bod efallai'n gyfarfodydd busnes, hefyd yn gyfle i Gadeiryddion gaffael rhywfaint o wybodaeth.

Ffigwr 5. Rheoleidd-dra darpariaeth hyfforddiant i Gadeiryddion[1]

Rheoleidd-dra'r ddarpariaeth	Nifer yr awdurdodau lleol
Unwaith y tymor	3
Dwywaith y flwyddyn	1
Unwaith y flwyddyn	4
Unwaith bob dwy flynedd	3
Dim ond pan deimlir bod yr angen yn codi	6

2.1.12 Dim ond 5 o awdurdodau lleol sy'n darparu hyfforddiant sydd wedi'i anelu'n benodol at Gadeiryddion sydd newydd eu penodi ar gyrff llywodraethu, a dywed pob un o'r 5 bod y pynciau a gwmpesir yn y sesiynau hyfforddi'r un fath â'r rheiny a gwmpesir

[1] Ticiodd un ymatebwr ddau flwch: ticiodd "un y flwyddyn" a "dim ond pan fydd yr angen yn codi".

mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion sefydledig. Ychwanegodd un ymatebwr bod eu sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion newydd hefyd yn agored i Ddirprwy Gadeiryddion a'r rheiny sy'n dymuno dod yn Gadeiryddion.

2.1.13 Fel y mae ffigwr 6 yn dangos, mae rhan fwyaf yr hyfforddiant i Gadeiryddion yn cael ei ddarparu gan aelodau'r tîm Cymorth i Llywodraethwyr awdurdod lleol ac ymgynghorwyr awdurdod lleol.

Ffigwr 6. Darparwr Hyfforddiant

Darparwyr Hyfforddiant	Nifer yr awdurdodau sy'n defnyddio'r darparwyr hyn yn rheolaidd	Nifer yr awdurdodau sy'n defnyddio'r darparwyr hyn yn achlysurol
Aelodau'r Tîm Cymorth i Lywodraethwyr	9	2
Ymgynghorwyr awdurdod lleol	6	2
Cadeiryddion presennol	2	2
Penaethiaid	1	3
Darparwyr allanol	1	3

2.1.14 Caiff y defnydd mawr hwn o aelodau timau Cymorth i Lywodraethwyr ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol ei amlygu gan y defnydd cymharol gyfyngedig o fewnbwn hyfforddi gan ddarparwyr posibl eraill.

2.1.15 Dylid hefyd nodi'r diffyg amrywiaeth yng nghefndir proffesiynol yr hyfforddwyr y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio, gyda 4 awdurdod lleol yn defnyddio darparwyr hyfforddiant o un ffynhonnell yn unig, fel arfer eu tîm Cymorth i Lywodraethwyr, a 7 awdurdod lleol arall ddim ond yn defnyddio dwy ffynhonnell o ddarpariaeth, fel arfer eu tîm Cymorth i Lywodraethwyr a'u gwasanaeth ymgynghorol awdurdod lleol. Gweler ffigwr 7.

Ffigwr 7. Amrywiaeth y Darparwyr a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant i Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu

Nifer y gwahanol ffynonellau darpariaeth a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer hyfforddiant i Gadeiryddion	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r ffynonellau darpariaeth hyn
4	2
3	2
2	7
1	5

Ar gyfer matrics darparwyr hyfforddiant Cadeiryddion cyrff llywodraethu, gweler Atodiad 3.

2.1.16 Casgliadau

Er bod rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yng Nghymru (16) yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu, nid yw saith, ychydig llai na thraean, yn gwneud hynny.

O'r awdurdodau hynny sydd yn darparu hyfforddiant

- mae 9 yn defnyddio mwy nag un dull i hysbysu Cadeiryddion am y sesiynau hyfforddi.

O'r 16 o awdurdodau lleol sy'n darparu hyfforddiant

- mae tri ohonynt yn cwmpasu llai na 4 o bynciau.

Yn yr un modd, mae yna amrywiaeth eang yn rheoleidd-dra'r ddarpariaeth hyfforddiant,

- yn ymestyn o 3 awdurdod sy'n darparu hyfforddiant unwaith y tymor
- i 6 sydd ddim ond yn darparu hyfforddiant pan fyddant yn teimlo bod yr angen yn codi.

Ym mhob un o'r 16 o awdurdodau lleol sy'n darparu hyfforddiant, mae'r rhan helaethaf yn dibynnu'n fawr ar eu Tîm Cymorth i Lywodraethwyr ac ymgynghorwyr, fel darparwyr.

2.1.17 Argymhellion

Argymhellir bod pob awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu ac, er mwyn effeithlonrwydd, bod ganddynt ymagwedd gyson, a lle bo'n berthnasol, gellid cynnig hyn trwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill.

Dylid dethol ystod y pynciau a gwmpesir mewn sesiynau hyfforddi, a'u nifer er mwyn sicrhau bod Cadeiryddion yn gallu ymdrin â llywodraethu systemau a phobl.

Er mwyn sicrhau bod Cadeiryddion yn profi mewnbwn amrywiol yn ystod sesiynau hyfforddiant, dylai awdurdodau lleol ymdrechu i ddefnyddio hyfforddwyr o nifer o wahanol feysydd/cefndiroedd.
Er mwyn rhoi:

- rhaglen o hyfforddiant i awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig hyfforddiant i Gadeiryddion ar hyn o bryd
- cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol sydd yn cynnig hyfforddiant i Gadeiryddion
- "pecyn" hyfforddi cyson a chydlynol i Gadeiryddion

Argymhellir bod rhaglen hyfforddi genedlaethol i Gadeiryddion yn cael ei chynhyrchu a'i darparu i awdurdodau lleol. Mae gan yr argymhelliad hwn gefnogaeth Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol sydd wedi dweud bod angen rhaglen hyfforddi genedlaethol o'r fath. "Mae arnom angen pecyn rhaglen hyfforddi genedlaethol i Gadeiryddion - sydd wedi'i gymeradwyo gan LCC" "… byddai cael pecyn hyfforddi i Gadeiryddion Llywodraethwyr newydd a phresennol yn ddefnyddiol fel bod ganddynt well dealltwriaeth o'u rôl. Nid yw llawer o lywodraethwyr yn dymuno (ceisio bod yn Gadeiryddion) oherwydd eu bod yn mynd i faes anghyfarwydd".

2.2 CEFNOGAETH BARHAUS A LLEDAENU GWYBODAETH

2.2.1 Yn ogystal â darparu hyfforddiant i Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu, mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu cymorth parhaus. Mae cymorth o'r fath i'w gael mewn amrywiaeth o ffurfiau. (Gweler ffigwr 8.)

Ffigwr 8: Cymorth awdurdod lleol parhaus i Gadeiryddion cyrff llywodraethu

Math o gymorth	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r dull hwn
Llinell gymorth	16
Fforwm Cadeiryddion sy'n cyfarfod yn rheolaidd	8
Fforwm Cadeiryddion sy'n cyfarfod pan fo angen	2
Trwy glerc y corff llywodraethu a ddarperir gan yr awdurdod lleol	2
Cymdeithas llywodraethwyr awdurdod lleol	2
Arall	5

2.2.2 Yn amlwg, y math mwyaf poblogaidd o gymorth yw'r llinell gymorth AALl a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol. Ar wahân i'r dull hwn, mae'r cymorth yn gyfyng. Yn wir, mae'r cymorth a roddir i Gadeiryddion trwy gymdeithasau llywodraethwyr awdurdod lleol yn debygol o fod yn llai effeithiol gan y byddai'n ystyried materion sydd, er eu bod o fudd cyffredinol, yn annhebygol o ffocysu ar anghenion hyfforddiant penodol Cadeiryddion.

2.2.3 Calonogol yw nodi bod pob un o 22 awdurdod lleol Cymru'n darparu cymorth parhaus i Gadeiryddion hyd yn oed os nad ydynt yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae nifer y dulliau o gymorth a ddefnyddir yn gyfyng fel y dangosir yn Ffigwr 9.

Ffigwr 9: Nifer y dulliau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gefnogi Cadeiryddion

Nifer y dulliau	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r dulliau hyn
3	1
2	10
1	11

Ar gyfer matrics o fathau o gymorth i Gadeiryddion fesul awdurdod lleol, gweler Atodiad 4.

2.2.4 Er mwyn sicrhau bod gan Gadeiryddion cyrff llywodraethu fynediad at y deunydd diweddaraf i'w helpu i berfformio'u dyletswyddau'n effeithiol, mae awdurdodau lleol yn lledaenu deunydd iddynt. Rhestrir y math o wybodaeth a anfonir at Gadeiryddion gan awdurdodau lleol yn Ffigwr 10.

Ffigwr 10: Mathau o wybodaeth a ledaenir gan awdurdodau lleol at Gadeiryddion cyrff llywodraethu

Math o wybodaeth a ledaenir gan awdurdodau lleol	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n lledaenu'r math yma o wybodaeth
Cyrsiau Hyfforddi	18
Materion awdurdod lleol	17
Materion addysgol	16
Materion cyfreithiol	16
Materion Iechyd a Diogelwch	12
Materion Lles Plant	12

2.2.5 Yn ogystal â'r mathau yma o wybodaeth, mae un awdurdod lleol yn lledaenu cyngor i Gadeiryddion "o ffynonellau allanol", un arall ar faterion cyllidebol, ac mae trydydd yn anfon gwybodaeth ar "unrhyw bwnc pwysig".

2.2.6 Fel y gellid disgwyl, mae materion awdurdod lleol, materion addysgol a materion cyfreithiol yn amlwg yn yr wybodaeth a ledaenir gan awdurdodau lleol at Gadeiryddion cyrff llywodraethu, gan mai'r rhain yw'r pynciau sy'n cwmpasu rhan fwyaf y gwaith a wneir gan gyrff llywodraethu.

2.2.7 Caiff gwybodaeth oddi wrth awdurdodau lleol i Gadeiryddion ei lledaenu mewn nifer o ffyrdd. Gweler ffigwr 11.

Ffigwr 11: Dulliau lledaenu y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio

Dull	Nifer yr awdurdodau sy'n defnyddio'r dull yma
Llythyr	22
E-bost	14
Trwy Gylchlythyr	13
Gwefan	9
Cysylltu â Chadeiryddion dros y ffôn	1
Cysylltu â Chadeiryddion trwy eu hysgolion	1

2.2.8 Y dull mwyaf poblogaidd o ledaenu gwybodaeth yw mewn llythyr, gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol yn defnyddio'r dull yma. Fodd bynnag, gwerth yw nodi bod dros hanner awdurdodau lleol Cymru hefyd yn defnyddio dulliau electronig (e-bost a gwefan) i ledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion.

2.2.9 Hefyd, calonogol yw gweld bod rhan fwyaf yr awdurdodau lleol ar draws Cymru'n defnyddio mwy nag un dull o ledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion cyrff llywodraethu. Gweler ffigwr 12.

Ffigwr 12: Nifer y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion cyrff llywodraethu

Nifer y dulliau a ddefnyddir i ledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion cyrff llywodraethu	Awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r nifer yma o ddulliau
5 dull	1
4 dull	5
3 dull	4
2 ddull	10
1 dull	2

Ar gyfer matrics lledaeniad gwybodaeth i Gadeiryddion cyrff llywodraethu gan awdurdodau lleol gweler Atodiad 5.

2.2.10 Diddorol yw nodi mai dim ond 8 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gofyn am adborth oddi wrth Gadeiryddion ar ansawdd y deunydd y maent yn ei ledaenu i Gadeiryddion ac ar y dulliau a ddefnyddir. Mae pob un o'r 8 awdurdod lleol yn defnyddio ffurflenni gwerthuso a/neu holiaduron. Dywed un awdurdod lleol ei fod hefyd yn annog adborth anffurfiol, a dywed un arall bod yr adborth a gaiff yn cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer y gwerthusiad blynyddol o wasanaethau'r awdurdod.

2.2.11 Casgliadau

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu cymorth parhaus i Gadeiryddion cyrff llywodraethu mewn nifer o ffyrdd (Gweler Ffigwr 8). Y dull mwyaf poblogaidd o lawer, yw llinell gymorth yr AALl (a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau) gyda fforwm i Gadeiryddion sy'n cwrdd yn rheolaidd yn ail ddull mwyaf poblogaidd (a ddefnyddir gan 9 awdurdod). Dim ond un awdurdod lleol sy'n defnyddio tri math o gymorth, ac mae 11 yn defnyddio dau fath o gymorth a 10 yn defnyddio 1 math o gymorth. (Gweler Atodiad 4.)

Mae'r math o wybodaeth a ledaenir i Gadeiryddion gan awdurdodau lleol yn amrywio, er mai'r rhai a ledaenir yn fwyaf cyffredin yw cyrsiau hyfforddi, materion awdurdod lleol a materion cyfreithiol ac addysgol.

Caiff yr wybodaeth hon ei lledaenu i Gadeiryddion ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ar ffurf llythyr er bod pob un anad un yn defnyddio o leiaf un dull arall, a'r un mwyaf cyffredin o'r rhain yw e-bost.

Argymhellion

Argymhellir bod pob awdurdod lleol yn darparu cymorth trwy linell gymorth, ac, at hyn, yn rhoi cyfarfodydd rheolaidd ar waith gyda Chadeiryddion fforymau lle gellir lleisio pryderon cyffredin a rhannu arferion da.

Hefyd, argymhellir bod pob awdurdod lleol yn gofyn am adborth oddi wrth Gadeiryddion ar ansawdd y deunydd a gânt oddi wrth awdurdodau lleol a sut y caiff y deunydd hwnnw ei ledaenu i fonitro perfformiad ac i gyflawni arfer gorau.

2.3 MESUR PERFFORMIAD CADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU

2.3.1 Nid yw'r un awdurdod lleol yng Nghymru yn defnyddio dulliau ffurfiol ar gyfer mesur perfformiad Cadeiryddion cyrff llywodraethu. Fodd bynnag, mae 8 awdurdod lleol yn defnyddio dulliau anffurfiol ar gyfer ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Mewn pedwar awdurdod lleol, caiff adborth ar berfformiad Cadeiryddion (ynghyd â'r corff llywodraethu cyfan) ei ddarparu gan glerc y corff llywodraethu (a ddarperir gan yr awdurdod lleol). Yn y pedwar awdurdod lleol sy'n weddill, caiff perfformiad y Cadeirydd (ynghyd â'r corff llywodraethu cyfan) ei arsylwi gan swyddogion yr awdurdod lleol sy'n mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu.

2.3.2 Argymhellion

Gan ystyried rôl hollbwysig y Cadeirydd, argymhellir bod dulliau i fesur perfformiad Cadeiryddion yn cael eu datblygu er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu'r hyfforddiant mwyaf priodol ac effeithiol i Gadeiryddion. Yn amlwg, mae hyn yn fater y mae angen ymdrin ag ef mewn ffordd sensitif ac mewn ffordd gefnogol ac anfygythiol felly argymhellir hefyd bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu ymagwedd gydweithredol at hyn i sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

2.4 SGILIAU'R CADEIRYDD

2.4.1 Gofynnwyd i Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr o bob un o 22 awdurdod lleol Cymru roi trefn ar restr sefydlog yn ôl yr hyn roedden nhw'n ei gredu yw'r sgiliau pwysicaf y dylai Cadeirydd corff llywodraethu ysgol feddu arnynt (gweler Atodiad 1)

2.4.2 Yn seiliedig ar system raddio lle'r oedd 13 o bwyntiau'n cynrychioli'r sgiliau pwysicaf ac 1 pwynt yn cynrychioli'r rhai lleiaf pwysig, dangosir canlyniadau'r ymarfer hwn yn Ffigwr 13.

Ffigwr 13: Sgiliau'r Cadeirydd - barn Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr

Sgil	Pwyntiau
Gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr	237
Cyfathrebydd clir	219
Yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli	211
Y gallu i drin materion yn sensitif	206
Y gallu i ddatrys materion anodd	185
Y gallu i gymryd safiad amhleidiol	172
Y Gallu i flaenoriaethu	166
Trefnydd da	142
Sgiliau gwrando da	134
Gwybodaeth am ddeddfwriaeth	122
Rheolaeth Amser	110
Sgiliau siarad cyhoeddus da	49
Sgiliau cyfryngau da	36

2.4.3 Roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod rhai sgiliau penodol yn gyfwerth o ran pwysigrwydd a rhoddasant yr un pwyntiau iddynt. Fel y dywedodd un Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr, "mae nifer o'r uchod (sgiliau)... yn cyfiawnhau rhoi'r un pwysigrwydd iddynt", a dywedodd ail, "mae nifer (o sgiliau) yr un mor bwysig â'i gilydd".

2.4.4 Awgrymodd un ymatebwr bod "y gallu i weithio gyda Phennaeth yr ysgol" yn sgil pwysig i Gadeiryddion. Caiff hyn ei gydnabod gan ail ymatebwr sy'n dweud bod eu hawdurdod lleol yn cynnal "hyfforddiant i Benaethiaid a Chadeiryddion gyda'i gilydd ac yn trafod ffyrdd o ddatblygu'r corff llywodraethu".

2.4.5 Mae trydydd ymatebwr yn cynnwys "sgiliau arweinyddiaeth da" a "gwybod pryd i geisio cyngor allanol" yn sgiliau dymunol ar gyfer Cadeirydd.

2.4.6 Yn amlwg "Y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr" yw'r sgil y mae Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr yn ei ystyried yw'r pwysicaf (18 pwynt yn uwch na'r sgil a ddywedwyd oedd yr ail pwysicaf). Yna, ymddengys bod yna grwpiau o sgiliau a chanddynt bwysigrwydd cymharol debyg.

2.4.7 Y grŵp cyntaf (219-206) yw'r tri sgil "cyfathrebwr da", "yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli", a "gallu i drin materion yn sensitif".

2.4.8 Mae'r ail grŵp o sgiliau a gwmpaswyd gan ystod o 19 o bwyntiau (185-166) yn cynnwys "gallu i ddatrys materion anodd" i "y gallu i flaenoriaethu".

2.4.9 Mae'r trydydd grŵp (142-110), "trefnydd da" i "rheolaeth amser", yn cwmpasu ystod o 32 o bwyntiau.

2.4.10 Mae'r grŵp olaf (49- 36) yn cynnwys dau sgil a gafodd sgôr isel iawn, sef "sgiliau siarad cyhoeddus da" a "sgiliau cyfryngau da", ac fe gafodd y ddau yma lai na 50 o bwyntiau.

2.4.11 Casgliadau

Mae Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr wedi dangos yn glir pwysigrwydd cymharol y sgiliau y mae ar Gadeiryddion corff llywodraethu eu hangen. Mae'r sgiliau hyn yn adlewyrchu rôl y Cadeirydd wrth reoli pobl a systemau.

2.4.12 Argymhellion

Argymhellir bod Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr yn sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir i Gadeiryddion yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau a nodwyd fel y rhai pwysicaf i Gadeiryddion wrth iddynt ymgymryd â'u rolau.

At hyn, argymhellir bod rhaglen hyfforddi genedlaethol i Gadeiryddion yn cael ei chynhyrchu, a dylai rhan fawr o hon ffocysu ar ddatblygiad y sgiliau y mae ar Gadeiryddion eu hangen fel y nodwyd gan Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr.

3 DADANSODDIAD O'R YMATEBION A GAFWYD ODDI WRTH GADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU

3.1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT I GADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU A SGILIAU CADEIRYDDION

3.1.1 Gofynnwyd i grŵp o 23 o Gadeiryddion cyrff llywodraethu (13 Cynradd, 10 Uwchradd) i roi trefn ar restr sefydlog yn ôl yr hyn yr oeddynt yn eu hystyried yn bynciau yr oeddynt yn credu y dylid eu cwmpasu mewn sesiynau hyfforddiant i Gadeiryddion. (Gweler Atodiad 2).

3.1.2 Yn seiliedig ar system raddio lle'r oedd 11 o bwyntiau'n cynrychioli'r sgiliau pwysicaf ac 1 pwynt yn cynrychioli'r rhai lleiaf pwysig, dangosir canlyniadau'r ymarfer hwn yn Ffigwr 14.

Ffigwr 14: Pynciau i'w cwmpasu mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion – barnau Cadeiryddion.

Pwnc	Pwyntiau
Gweithio gyda'r Pennaeth	217
Trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol	205
Defnydd effeithlon o bwyllgorau	156
Diogelu Disgyblion	146
Sgiliau arweinyddiaeth: e.e. adeiladu timau a chymhelliant	139
Gweithio gyda chlerc y llywodraethwyr	122
Gweithio gyda rhieni	121
Cyfraith Addysg	120
Ymsefydlu Llywodraethwyr	97
Rhoi llais i fyfyrwyr e.e. cynghorau ysgol	83
Gweithio gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y cyfryngau	59

3.1.3 Mae'n amlwg bod Cadeiryddion cyrff llywodraethu'n credu mai "Gweithio gyda'r Pennaeth" a "trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol" yw'r pynciau pwysicaf o lawer a gwmpaswyd mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion.

3.1.4 Dywedodd un ymatebydd, mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y berthynas hon, y dylai'r berthynas rhwng y Pennaeth a'r Cadeirydd fod yn bartneriaeth ac yn gydweledigaeth ond gyda'r Cadeirydd yn cadw safbwynt "cyfaill beirniadol".

3.1.5 Mae ail ymatebydd yn cysylltu pwysigrwydd perthynas gwaith da rhwng y Cadeirydd a'r Pennaeth gyda "trefnu cyfarfodydd yn effeithiol" gan ddweud "Mae'n hollbwysig bod y Cadeirydd yn paratoi at y cyfarfod (llywodraethwyr) ac yn cadw cysylltiad â'r Pennaeth cyn y cyfarfod i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar faterion."

3.1.6 Diddorol yw cymharu sut y mae Cadeiryddion yn blaenoriaethu pynciau â beth yw pynciau mwyaf poblogaidd y sesiynau hyfforddi a ddarperir gan awdurdodau lleol (Gweler ffigwr 3, tudalen 4).

3.1.7 Calonogol yw nodi bod y pum pwnc pwysicaf ar gyfer hyfforddiant a ddetholwyd gan Gadeiryddion yn cael eu cwmpasu gan rwng 11 ac 13 o'r 15 awdurdod lleol hynny sy'n darparu hyfforddiant i Gadeiryddion.

3.1.8 Ymddengys nad yw Cadeiryddion, fel Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdod lleol, yn credu bod darparu hyfforddiant i ymsefydlu llywodraethwyr newydd yn bwysig iawn. O ystyried barn Nigel Gann, roedd hyn yn dipyn o syndod. (Gweler paragraff 2.1.8.)

3.1.9 Gofynnwyd i'r un grŵp o 23 o Gadeiryddion (13 Cynradd, 10 Uwchradd) i roi trefn ar restr sefydlog, yn ôl yr hyn roeddynt yn ei ystyried yw'r sgiliau pwysicaf y dylai Cadeirydd corff llywodraethu ysgol feddu arnynt. (Gweler Atodiad 2.)

3.1.10 Yn seiliedig ar system raddio lle'r oedd 13 o bwyntiau'n cynrychioli'r sgiliau pwysicaf ac 1 pwynt yn cynrychioli'r rhai lleiaf pwysig, dangosir canlyniadau'r ymarfer hwn yn Ffigwr 15.

Ffigwr 15: Sgiliau'r Cadeirydd - barn Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu.

Sgil	Pwyntiau
Yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli.	242
Y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y corff llywodraethu.	219
Y gallu i drin materion yn sensitif.	212
Y gallu i gymryd safiad amhleidiol.	200
Y gallu i ddatrys materion anodd.	194
Y Gallu i flaenoriaethu.	174
Cyfathrebydd clir.	161
Sgiliau gwrando da.	159
Rheolaeth Amser.	145
Gwybod am ddeddfwriaeth corff llywodraethu a'r gallu i'w chymhwyso	145
Trefnydd da.	134
Sgiliau siarad cyhoeddus da.	63
Sgiliau cyfryngau da (delio â'r cyfryngau, teledu, a.y.b.	30

3.1.11 Mae'n amlwg mae'r gallu i "adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli" yw'r sgil y mae Cadeiryddion yn credu yw'r pwysicaf (23 pwynt yn uwch na'r sgil ail pwysicaf.)

3.1.12 Mae'r pedwar sgil nesaf (219 - 194) "gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yng ngwaith y corff llywodraethu" i "y gallu i drin materion anodd" yn cael eu cwmpasu gan ystod o 25 o bwyntiau cyn cwymp o 20 o bwyntiau i'r chwech sgil nesaf (174-134) "Y gallu i flaenoriaethu" i "trefnydd da" a gwmpesir gan ystod o 40 o bwyntiau. Mae “Sgiliau siarad cyhoeddus da” a “Sgiliau cyfryngau da” ill dau'n cael llai na 65 o bwyntiau.

3.1.13 Mae'n fuddiol cymharu barnau Cadeiryddion am eu hanghenion sgiliau gyda barnau Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr. (Gweler ffigwr 13.)

3.1.14 Hefyd, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at sgiliau eraill yr oeddynt yn teimlo byddai'n fuddiol i Gadeiryddion.

Mae'r rhain yn cynnwys

- "sut i ddefnyddio iaith i berswadio a chymell"
- “dod i adnabod yr holl staff" a deall y gymuned y mae eu hysgol yn ei gwasanaethu
- “gwybodaeth leol dda - bod yn ymwybodol o'r math o ardal ydi hi"
- “mae'n bwysig iawn bod gan Gadeirydd.....ysgol.... ddealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar eu cymuned a'i synwyrusrwydd."

3.1.15 Soniodd hyd yn oed mwy o ymatebwyr am faint o amser sydd ei angen i fodloni dyletswyddau'r Cadeirydd yn effeithiol. Cyfeiriodd un at "y swm sylweddol o amser sydd ei angen i berfformio'r rôl", teimlad a ailadroddwyd gan ail ymatebydd - "mae angen llawer iawn o ymroddiad er mwyn bodloni'r rôl yn llwyddiannus." Amlygodd trydydd ymatebwr broblem posibl sy'n codi o'r galw ar Gadeiryddion: “Mae'r cynnydd parhaus yng nghyfrifoldebau llywodraethwyr yn gofyn am lot o ymroddiad. Gall hyn arwain at benodi Cadeirydd oherwydd bod ganddo ef/ganddi hi'r amser yn hytrach nag am fod ganddo/ganddi'r sgiliau/profiad gofynnol."

3.1.16 Gan ystyried y pryder ynghylch ymroddiad Cadeiryddion, mae'n eithaf syndod bod "rheoli amser" wedi cael ei roi mor isel yn y rhestr o sgiliau pwysig y dylai Cadeiryddion feddu arnynt. (Gweler ffigwr 15.)

3.1.17 <u>Casgliadau</u>

Mae ymatebwyr wedi dangos yn glir pa bynciau y dylid eu cwmpasu yn yr hyfforddiant i Gadeiryddion a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r sgiliau sydd eu hangen ar Gadeiryddion corff llywodraethu wrth iddynt ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

Diddorol a chalonogol yw nodi faint y mae'r arwyddion hyn yn cyd-fynd â rhai Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdod lleol.

3.1.18 Argymhellion

Argymhellir bod rhaglen hyfforddiant genedlaethol i Gadeiryddion yn cael ei chynhyrchu, a dylai rhan fawr o hon ffocysu ar ddatblygiad y sgiliau y mae ar Gadeiryddion eu hangen fel y nodwyd gan y rheiny sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd.

4 DADANSODDIAD O YMATEBION PENAETHIAID

4.1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT I GADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU A SGILIAU CADEIRYDDION

4.1.1 Rhoddodd grŵp o 16 o Benaethiaid (7 Cynradd , 9 Uwchradd) drefn ar restr sefydlog o bynciau yn ôl yr hyn yr oeddynt yn credu oedd y pynciau y dylid eu cwmpasu mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion. (Gweler Atodiad 2).

4.1.2 Yn seiliedig ar system raddio lle'r oedd 11 o bwyntiau'n cynrychioli'r sgiliau pwysicaf ac 1 pwynt yn cynrychioli'r rhai lleiaf pwysig, dangosir canlyniadau'r ymarfer hwn yn Ffigwr 16.

Ffigwr 16: Pynciau i'w cynnwys mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion - barn Penaethiaid.

Pwnc	Pwyntiau
Gweithio gyda'r Pennaeth	160
Trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol	149
Cyfraith Addysg	114
Defnydd effeithlon o bwyllgorau	108
Diogelu Disgyblion	105
Gweithio gyda chlerc y llywodraethwyr	87
Sgiliau arweinyddiaeth, e.e. adeiladu tîm, symbyliad	80
Gweithio gyda rhieni	67
Ymsefydlu Llywodraethwyr	64
Rhoi llais i ddisgyblion, e.e. cynghorau ysgol	47
Gweithio gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y cyfryngau	41

4.1.3 "Gweithio gyda'r Pennaeth" a "trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol" (160 - 149) yw'r ddau bwnc y mae Penaethiaid yn credu o bell ffordd yw'r rhai pwysicaf y dylid eu cwmpasu mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion. Mae hyn yn cyd-fynd bron yn union â barn y 23 o Gadeiryddion a ymgymerodd yn yr ymarfer hwn hefyd. Mewn gwirionedd, mae yna debygrwydd cyffredinol mawr rhwng Cadeiryddion a Phenaethiaid ynglŷn â'r hyn y mae'r ddau yn ei ystyried yw anghenion hyfforddiant Cadeiryddion. (Cymharwch Ffigyrau 14 ac 16.)

4.1.4 Mae nifer fawr o Benaethiaid yn pwysleisio'r hyn y maen nhw'n amlwg yn ystyried yw'r berthynas hollbwysig rhwng y Pennaeth a'r Cadeirydd: "Mae'r cadeirydd yn ddolen hanfodol i ysgol effeithlon. Oni bai bod yna bartneriaeth gadarn rhwng y

Cadeirydd a'r Pennaeth bydd cynnydd yn gyfyngedig", "rhan bwysicaf rôl y Cadeirydd yw cydweithio â'r Pennaeth."

4.1.5 Mae dau bennaeth yn nodi meysydd penodol y dylai Penaethiaid a Chadeiryddion weithio'n agos gyda'i gilydd arnynt: "(Mae'n) dda (i'r Cadeirydd) gwrdd â'r Pennaeth yn rheolaidd er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau/faterion yn yr ysgol", "(Dylai'r Cadeirydd) rannu gweledigaeth y Pennaeth o'r ysgol ymhen 5 blynedd," ac mae trydydd yn ymwybodol o rôl "cyfaill beirniadol" y Cadeirydd. "Dylai bod (y Cadeirydd) yn gallu gwerthuso'n feirniadol a herio rheolaeth yr ysgol."

4.1.6 Hefyd, mae un Pennaeth yn amlygu pwysigrwydd rôl y Cadeirydd o ran staff ysgol. "Rwy'n credu ei fod hefyd yn bwysig bod y staff yn adnabod (y Cadeirydd) a bod (ganddo/ganddi'r) gallu i gyfathrebu â nhw"

4.1.7 Gofynnwyd i'r un grŵp o 16 o Benaethiaid (7 Cynradd, 9 Uwchradd) i roi blaenoriaeth ar restr sefydlog, yn ôl yr hyn yr oeddynt yn ei ystyried yw'r sgiliau pwysicaf y dylai Cadeirydd corff llywodraethu ysgol feddu arnynt. (Gweler Atodiad 2.)

4.1.8 Yn seiliedig ar system raddio lle'r oedd 13 o bwyntiau'n cynrychioli'r sgiliau pwysicaf ac 1 pwynt y rhai lleiaf pwysig, dangosir canlyniadau'r ymarfer hwn yn Ffigwr 17.

Ffigwr 17: Sgiliau'r Cadeirydd - barn Penaethiaid.

Sgil	Pwyntiau
Yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli	170
Y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y corff llywodraethu	148
Cyfathrebydd clir	144
Y gallu i ddatrys materion anodd	131
Y Gallu i flaenoriaethu	128
Y gallu i drin materion yn sensitif	115
Y gallu i gymryd safiad amhleidiol	115
Trefnydd da	114
Rheolaeth Amser	107
Gwybod am ddeddfwriaeth corff llywodraethu a'r gallu i'w chymhwyso	93
Sgiliau siarad cyhoeddus da	62
Sgiliau cyfryngau da (delio â'r cyfryngau, teledu, a.y.b.	20

4.1.9 Unwaith eto, mae yna lawer o bethau'n debyg rhwng yr hyn y mae Penaethiaid a Chadeiryddion yn credu yw'r sgiliau pwysicaf y dylai Cadeirydd feddu arnynt. (Cymharwch Ffigyrau 15 ac 17.)

4.1.10 Mae'r ddau grŵp yn rhoi "adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli" ac "y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y corff llywodraethu" yn gyntaf ac yn ail.

4.1.11 At hyn, mae yna gydsyniad eang yng ngwerth sgiliau eraill ac eithrio "cyfathrebydd clir" a roddwyd yn 2^{il} gan Benaethiaid ac yn 7^{fed} gan Gadeiryddion, "y gallu i drin materion yn sensitif" a roddwyd yn 6^{ed} gan Benaethiaid ac yn 3^{ydd} gan Gadeiryddion, "y gallu i gymryd safiad amhleidiol" a roddwyd yn 7^{fed} gan Benaethiaid ac yn 4^{ydd} gan Gadeiryddion a "trefnydd da" a roddwyd yn 8^{fed} gan Benaethiaid ac yn 11^{eg} gan Gadeiryddion.

4.1.12 Yn olaf, mae yna lefel anhygoel o gydsyniad rhwng Penaethiaid, Cadeiryddion cyrff llywodraethu a Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr ar bwysigrwydd cymharol y sgiliau y mae ar Gadeiryddion cyrff llywodraethu eu hangen. (Gweler ffigwr 18.)

Ffigwr 18: Sgiliau'r Cadeirydd – cymhariaeth o farn Penaethiaid, Cadeiryddion cyrff llywodraethu a Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr.

Sgil	Safle Penaethiaid	Safle Cadeiryddion	Safle Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr
Yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli	1af	1af	3ydd
Y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y corff llywodraethu	2il	2il	1af
Cyfathrebydd clir	3ydd	7fed	2il
Y gallu i ddatrys materion anodd	4ydd	5ed	5ed
Y Gallu i flaenoriaethu	5ed	6ed	7fed
Y gallu i drin materion yn sensitif	6ed	3ydd	4ydd
Y gallu i gymryd safiad amhleidiol	7fed	4ydd	6ed
Trefnydd da	8fed	11eg	8fed
Sgiliau gwrando da	9fed	8fed	9fed
Rheolaeth Amser	10fed	9fed	11eg
Gwybod am ddeddfwriaeth corff llywodraethu a'r gallu i'w chymhwyso	11eg	10fed	10fed
Sgiliau siarad cyhoeddus da	12fed	12fed	12fed
Sgiliau cyfryngau da (ymdrin â'r wasg, Teledu, a.y.b.)	13eg	13eg	13eg

4.1.13 Ac eithrio "Cyfathrebydd clir" a roddwyd 4 safle'n is gan Gadeiryddion nad Phenaethiaid a 5 safle'n is na Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr, mae pob sgil arall wedi'u rhoi yn yr un safle, fwy neu lai. Yn wir mae dau sgil - "Sgiliau siarad cyhoeddus da" a "Sgiliau cyfryngau da" wedi'u rhoi yn yr union un safle o ran pwysigrwydd gan y tri grŵp o ymatebwyr.

4.1.14 Hefyd, diddorol yw nodi bod y tri grŵp o ymatebwyr yn cytuno ar y saith sgil pwysicaf y dylai Cadeiryddion cyrff llywodraethu feddu arnynt er nad ydynt yn eu rhoi yn yr un safle o ran pwysigrwydd.

4.1.15 Casgliadau

Fel ag sy'n wir am Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr a Chadeiryddion cyrff llywodraethu, mae Penaethiaid wedi dangos yn glir pa bynciau y dylid eu cwmpasu yn yr hyfforddiant i Gadeiryddion a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r sgiliau sydd ar Gadeiryddion cyrff llywodraethu eu hangen i ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

Diddorol a chalonogol yw nodi i ba raddau y mae'r barnau hyn yn cyd-fynd gyda rhai Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol a Chadeiryddion cyrff llywodraethu.

Diddorol yw nodi pa mor isel y rhoddwyd "Gwybod am ddeddfwriaeth corff llywodraethu a'r gallu i'w chymhwyso" gan yr holl grwpiau gan ystyried bod rhaid i gyrff llywodraethu ymgymryd â'u busnes o fewn ystod o ddeddfwriaeth.

4.1.16 Argymhellion

Argymhellir bod rhaglen hyfforddi genedlaethol i Gadeiryddion yn cael ei chynhyrchu, a dylai rhan fawr o hon ffocysu ar ddatblygiad y sgiliau y mae ar Gadeiryddion eu hangen fel y nodwyd gan Benaethiaid a, fel mae'n digwydd, gan Gadeiryddion cyrff llywodraethu a Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol.

CRYNODEB O GASGLIADAU

5.1 Mae 15 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu. Fodd bynnag, mae yna amrywiaeth eang ar draws awdurdodau lleol o ran nifer y pynciau a gwmpesir mewn sesiynau hyfforddi yn ogystal â rheoleidd-dra sesiynau hyfforddi.

5.2 Ym mhob un o'r 15 o awdurdodau lleol sy'n darparu hyfforddiant, mae'r rhan helaethaf yn dibynnu'n fawr ar eu Tîm Cymorth i Lywodraethwyr ac ymgynghorwyr fel darparwyr.

5.3 Yn ogystal â darparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu, mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol hefyd yn darparu cymorth parhaus. Gan amlaf, mae hyn ar ffurf "llinell gymorth".

5.4 Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn lledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion. Fel arfer, mae'r wybodaeth hon ynghylch cyrsiau hyfforddi, materion awdurdod lleol a materion cyfreithiol ac addysgol. Y dulliau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir ar gyfer lledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion yw mewn llythyr, mewn neges e-bost ac ar ffurf cylchlythyr.

5.5 Nid oes yr un awdurdod lleol yn defnyddio dulliau ffurfiol i fesur perfformiad Cadeiryddion cyrff llywodraethu i'w helpu i lunio rhaglenni hyfforddi i ymdrin ag anawsterau a heriau cyffredin y gall Gadeiryddion eu hwynebu.

5.6 Mae yna lefel uchel o gydsyniad rhwng Gadeiryddion cyrff llywodraethu, Penaethiaid a Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdod lleol ar y sgiliau y mae ar Gadeiryddion eu hangen i ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

6 CRYNODEB O ARGYMHELLION

6.1 Dylai pob awdurdod lleol ddarparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu ac, er mwyn effeithlonrwydd a lle bo'n berthnasol, dylai dau awdurdod lleol neu fwy gynnig hyn drwy gydweithredu. Hefyd, fe allai hyn alluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio amrywiaeth ehangach o hyfforddwyr na'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd, hynny yw aelodau'r Tîm Cymorth i Lywodraethwyr awdurdod lleol ac ymgynghorwyr awdurdod lleol, yn ogystal â datblygu pecynnau dysgu o bell i Gadeiryddion.

6.2 Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu, dylid cynhyrchu rhaglen hyfforddi genedlaethol a dylai hon fod ar gael iddynt. Dylai rhaglen hyfforddi o'r fath ffocysu ar y pynciau a'r sgiliau cadeirio hynny a nodwyd gan Gadeiryddion, Penaethiaid a Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdod lleol yn yr adroddiad hwn yn rhai pwysig i Gadeiryddion allu ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

6.3 Yn ogystal â darparu hyfforddiant i Gadeiryddion, dylai awdurdodau lleol ddarparu cymorth parhaus, yn arbennig "llinell gymorth" a chyfarfodydd rheolaidd fforymau Cadeiryddion.

6.4 Er ein bod yn cydnabod y byddai mesur perfformiad Cadeiryddion yn fater sensitif, fe fyddai'n helpu i roi siâp ar y rhaglen hyfforddi i Gadeiryddion pe bai awdurdodau lleol yn datblygu ffyrdd o fesur pa mor effeithiol yw Cadeiryddion wrth berfformio'u dyletswyddau. (Gweler yn gynharach)

6.5 Dylai Cadeiryddion cyrff llywodraethu a Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud pob ymdrech i sicrhau bod Cadeiryddion yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth y mae cyrff llywodraethu'n gweithio ynddi.

Atodiadau

Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe

RÔL CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHU

Enw'r Awdurdod Addysg Lleol .....

Faint o'r ysgolion a ganlyn sydd yn eich AALl?

Meithrin: ..... Babanod..... Iau: .....

Cynradd: ..... Uwchradd: .....

1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT A CHYMORTH AR GYFER CADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

1.1 A yw eich AALl yn darparu hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu?

YDYM ☐ (atebwch gwestiynau 1.2 –1.4)
NAC YDYM ☐ (ewch i gwestiwn 1.5)

1.2 Sut ydych chi'n rhoi gwybod i'r Cadeiryddion am gynnwys, amser a lleoliad sesiynau hyfforddi?

.....

.....

1.3 Pa bynciau ydych chi'n eu cynnwys yn yr hyfforddiant i Gadeiryddion cyrff llywodraethu (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol ☐
Gweithio gyda Phenaethiaid ☐
Gweithio gyda Chlerc y llywodraethwyr ☐
Ymsefydlu llywodraethwyr newydd ☐
Defnydd effeithlon o bwyllgorau ☐
Cyfreithiau addysg ☐
Diogelu disgyblion ☐
Sgiliau arweinyddiaeth, e.e. adeiladu tîm, cymhelliant ☐
Gweithio gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y cyfryngau ☐
Gweithio gyda rhieni ☐
Rhoi llais i ddisgyblion, e.e. cynghorau ysgol ☐
Arall (rhowch fanylion).....

.....

1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT A CHYMORTH (parhad)

1.4 Pa mor aml mae eich AALl yn darparu hyfforddiant **yn arbennig** ar gyfer Cadeiryddion cyrff llywodraethu?

Unwaith y tymor	☐
Dwywaith y flwyddyn	☐
Unwaith y flwyddyn	☐
Unwaith bob dwy flynedd	☐
Dim ond pan fyddwn yn teimlo fod yr angen yn codi	☐

1.5 A yw eich AALl yn darparu hyfforddiant a drefnir yn arbennig ar gyfer Cadeiryddion llywodraethwyr **newydd gael eu penodi**?

YDYM ☐
NAC YDYM ☐ (ewch i gwestiwn 1.7)

1.6 Os ateboch chi YDYM i gwestiwn 1.5, pa bynciau fyddwch chi'n eu cynnwys yn y sesiynau hyfforddi hyn?

.....

.....

1.7 Pwy sy'n darparu'r hyfforddiant ar y cyrsiau y byddwch yn eu cynnal ar gyfer Cadeiryddion cyrff llywodraethu?

	Fel arfer	Yn achlysurol
Aelodau o'r Tîm Cymorth i Lywodraethwyr	☐	☐
Ymgynghorwyr AALl	☐	☐
Cadeiryddion presennol	☐	☐
Penaethiaid	☐	☐
Darparwyr allanol	☐	☐

Arall (rhowch fanylion).....

.....

.....

1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT A CHYMORTH (parhad)

1.8 Pa fath o gefnogaeth gyfredol, heblaw am sesiynau hyfforddi ffurfiol, mae eich AALl yn ei darparu ar gyfer Cadeiryddion cyrff llywodraethu?

Fforwm Cadeiryddion sy'n cyfarfod yn rheolaidd ☐

Fforwm Cadeiryddion sy'n cyfarfod pan fo angen ☐

Llinell gymorth ☐

Llawlyfr Cadeiryddion sy'n cynnwys cyngor ac arweiniad ☐

Arall (rhowch fanylion).....

.....

2 LLEDAENU GWYBODAETH

2.1 Sut fyddwch chi'n lledaenu gwybodaeth i Gadeiryddion cyrff llywodraethu? (gallwch dicio mwy nag un blwch os yw'n briodol).

E-bost ☐

Llythyr ☐

Trwy Gylchlythyr ☐

Gwefan ☐

Arall (rhowch fanylion).....

.....

2.2 Pa fath o wybodaeth ydych chi'n ei dosbarthu fel arfer i Gadeiryddion cyrff llywodraethu? (ticiwch fel y bo'n briodol).

Materion addysgol ☐

Materion cyfreithiol ☐

Materion Iechyd a Diogelwch ☐

Materion Lles Plant ☐

Materion AALl ☐

Cyrsiau hyfforddi ☐

Arall (rhowch fanylion).....

.....

2 LLEDAENU GWYBODAETH (parhad)

2.4 A ydych chi'n gofyn am adborth gan Gadeiryddion cyrff llywodraethu ar ansawdd y deunydd y mae eich AALl yn ei ddosbarthu a'r dulliau a ddefnyddir?

YDYM ☐

NAC YDYM ☐

2.5 Os ateboch YDYM i gwestiwn 2.4, a fyddech cystal ag enwi'r dull(iau) rydych yn eu defnyddio i gasglu adborth.

.....

.....

3 MESUR PERFFORMIAD CADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU

3.1 A ydych chi'n defnyddio dulliau **ffurfiol** i fesur perfformiad Cadeiryddion cyrff llywodraethu?

YDYM ☐

NAC YDYM ☐

3.2 Os ateboch YDYM i gwestiwn 3.1, pa ddulliau ffurfiol i fesur perfformiad Cadeiryddion cyrff llywodraethu ydych chi'n eu defnyddio

Holiadur i aelodau eraill cyrff llywodraethu ☐

Holiadur i'r Pennaeth yn unig ☐

Holiadur hunanasesiad i'r Cadeirydd ☐

Cyfweliadau/ trafodaethau rheolaidd gyda Chadeiryddion ar eu perfformiad ☐

Y Cadeirydd yn cael ei arsylwi mewn cyfarfodydd gan y swyddog awdurdod lleol ☐

Eraill (rhowch fanylion).....

.....

3.3 A ydych chi'n defnyddio dulliau **anffurfiol** i fesur perfformiad Cadeiryddion cyrff llywodraethu?

YDYM ☐

NAC YDYM ☐

3 MESUR PERFFORMIAD CADEIRYDDION (parhad)

3.4 Os ateboch YDYM i gwestiwn 3.3, a fyddech gystal ag enwi'r dull(iau) rydych yn eu defnyddio i gasglu adborth.

.....

.....

.....

.....

4 SGILIAU CADEIRYDDION

4.1 Yn eich barn broffesiynol chi, beth yw'r sgiliau pwysicaf y dylai Cadeirydd corff llywodraethu ysgol feddu arnynt? A fyddech gystal â rhoi ystyriaeth i'r rhestr sgiliau ganlynol, yna ychwanegwch unrhyw rai eraill at y rhestr y teimlwch eu bod yn bwysig. Yna rhestrwch yr holl sgiliau yn nhrefn eu pwysigrwydd, gan ddechrau gyda rhif 1 am y pwysicaf.

SGIL	Yn ôl trefn pwysigrwydd
Rheolaeth Amser	
Y Gallu i flaenoriaethu	
Cyfathrebydd clir	
Trefnydd da	
Yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli	
Y gallu i drin materion yn sensitif	
Y gallu i gymyrd safiad amhleidiol	
Y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y corff llywodraethu	
Sgiliau gwrando da	
Y gallu i ddatrys materion anodd	
Sgiliau siarad cyhoeddus da	
Sgiliau cyfryngau da (delio â'r cyfryngau, teledu ayb.)	
Gwybod am ddeddfwriaeth corff llywodraethu a'r gallu i'w chymhwyso	
Arall (rhowch fanylion)	

5 SYLWADAU YCHWANEGOL

Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill allai fod gennych ar rôl Cadeirydd y corff llywodraethu.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Diolch am eich help. A fyddwch cystal â dychwelyd eich holiadur wedi'i lenwi yn yr amlen ragdaledig i:

Steve Gullick, Rheolwr y Ganolfan
Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Heol Townhill, Abertawe SA2 0UT

Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe

RÔL CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHU

Enw ..... Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr*

Enw'r ysgol: ..... AALL: .....

Math o Ysgol: Babanod / Iau / Cynradd / Uwchradd* Nifer y disgyblion.....

*dilëer fel y bo'n briodol

1 DARPARIAETH HYFFORDDIANT AR GYFER CADEIRYDDION CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Yn eich barn chi, pa bynciau ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys mewn sesiynau hyfforddi i Gadeiryddion cyrff llywodraethu? A fyddech gystal â rhoi ystyriaeth i'r rhestr pynciau ganlynol, yna ychwanegwch unrhyw rai eraill at y rhestr y teimlwch eu bod yn bwysig. Yna rhestrwch yr holl bynciau yn nhrefn eu pwysigrwydd, gan ddechrau gyda rhif 1 am y pwysicaf.

PWNC	Yn ôl trefn pwysigrwydd
Trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol	
Gweithio gyda'r Pennaeth	
Gweithio gyda chlerc y llywodraethwyr	
Ymsefydlu Llywodraethwyr	
Defnydd effeithlon o bwyllgorau	
Cyfreithiau Addysg	
Diogelu Disgyblion	
Sgiliau arweinyddiaeth, e.e. adeiladu tîm, cymhelliant	
Gweithio gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y cyfryngau	
Gweithio gyda rhieni	
Rhoi llais i ddisgyblion, e.e. cynghorau ysgol	
Arall (rhowch fanylion)	

2 SGILIAU CADEIRYDDION

Yn eich barn chi, beth yw'r sgiliau pwysicaf y dylai Cadeirydd corff llywodraethu ysgol feddu arnynt? Byddwch cystal â rhoi ystyriaeth i'r rhestr sgiliau ganlynol, yna ychwanegwch unrhyw rai eraill at y rhestr y teimlwch eu bod yn bwysig. Yna rhestrwch yr holl sgiliau yn nhrefn eu pwysigrwydd, gan ddechrau gyda rhif 1 am y pwysicaf.

SGIL	Yn ôl trefn pwysigrwydd
Rheolaeth Amser	
Y Gallu i flaenoriaethu	
Cyfathrebydd clir	
Trefnydd da	
Yn adnabod y terfynau rhwng llywodraethu a rheoli	
Y gallu i drin materion yn sensitif	
Y gallu i gymryd safiad amhleidiol	
Y gallu i gynnwys yr holl lywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y gwaith y corff llywodraethu	
Sgiliau gwrando da	
Y gallu i ddatrys materion anodd	
Sgiliau siarad cyhoeddus da	
Sgiliau cyfryngau da (delio â'r cyfryngau, teledu ayb.)	
Gwybod am ddeddfwriaeth corff llywodraethu a'r gallu i'w chymhwyso	
Arall (rhowch fanylion)	

3 SYLWADAU YCHWANEGOL

Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill allai fod gennych ar rôl Cadeirydd y corff llywodraethu.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Diolch am eich help. A fyddech gystal â dychwelyd eich holiadur wedi'i lenwi yn yr amlen ragdaledig i:

Steve Gullick, Rheolwr y Canolfan
Ganolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Heol Townhill, Abertawe SA2 0UT

Darparwyr Hyfforddiant	Awdurdodau Lleol																					Cyfansymiau
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	
Aelodau'r Tîm Cymorth i Lywodraethwyr			Y		Y	Y				Y			Y	Y	Y	Y	Y		Y			Y	11
Ymgynghorwyr AALl		Y				Y	Y	Y		Y				Y		Y						Y	8
Cadeiryddion presennol					Y	Y	Y							Y									4
Penaethiaid			Y		Y	Y								Y									4
Darparwyr allanol		Y										Y	Y									Y	4
Arall								Y										Y					2
Cyfansymiau	**0**	**2**	**2**	**0**	**3**	**4**	**2**	**2**	**0**	**2**	**0**	**1**	**2**	**4**	**1**	**2**	**1**	**1**	**1**	**0**	**0**	**3**	

Mathau o gymorth	Awdurdodau Lleol																					Cyfansymiau
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	
Llinell Gymorth	Y		Y		Y	Y			Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y		16
Fforwm Cadeiryddion sy'n cwrdd yn rheolaidd				Y	Y			Y	Y		Y			Y	Y			Y					8
Fforwm Cadeiryddion sy'n cwrdd pan fo angen						Y																Y	2
Trwy'r clerc corff llywodraethu a ddarperir gan yr awdurdod lleol			Y	Y																			2
Cymdeithas llywodraethwyr awdurdod lleol													Y				Y						2
Arall		Y				Y	Y													Y		Y	5
Cyfansymiau	1	1	2	2	2	3	1	1	2	1	2	1	2	2	2	1	2	2	1	1	1	1	

Awdurdodau Lleol

Dull Lledaenu	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**	**J**	**K**	**L**	**M**	**N**	**O**	**P**	**Q**	**R**	**S**	**T**	**U**	**V**	**Cyfansymiau**
E-bost				Y		Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y	Y	Y				Y	**14**
Llythyr	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	**22**
Cylchlythyr			Y	Y		Y		Y		Y						Y	Y	Y	Y	Y	Y		**11**
Gwefan			Y	Y	Y		Y			Y	Y				Y	Y		Y					**9**
Arall				Y		Y	Y																**3**
Cyfansymiau	**1**	**1**	**3**	**5**	**2**	**4**	**4**	**3**	**2**	**4**	**3**	**2**	**2**	**2**	**2**	**4**	**3**	**4**	**2**	**2**	**2**	**2**	